# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## Safon Uwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae'r ddeddf hon yn ategu'r broses o ddarparu holl wasanaethau'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd angen i chi ymgyfarwyddo â'i therminoleg a'i hegwyddorion.

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn ddeddfwriaeth bwysig ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Cafodd ei deddfu yn 2014 a daeth i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'n nodi fframwaith cyfreithiol newydd sy'n cynnwys tair elfen:

- y Ddeddf ei hun
- y rheoliadau, sy'n darparu manylion ynghylch gofynion y Ddeddf
- y codau ymarfer, sy'n egluro sut y dylai gael ei rhoi ar waith mewn ffordd ymarferol.

Mae'r Ddeddf yn cwmpasu:

- oedolion, plant a gofalwyr.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys 11 o rannau, yn seiliedig ar bum egwyddor ac yn egluro pa bobl y mae'n effeithio arnynt. Gellir cofio hyn fel y '3P' yn Saesneg:

- y bobl y mae'n effeithio arnynt (people)
- y rhannau yn y Ddeddf (parts)
- yr egwyddorion drwy gydol y Ddeddf (principles).

**Y Pum Egwyddor**

- Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar lesiant pobl yng Nghymru ac ar helpu'r rhai sydd angen gofal a chymorth i'w gyflawni.
- Mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn ganolog i'r Ddeddf hon a rhoddir llais gyfartal iddynt o ran y cymorth a gânt.
- Mae gwasanaethau yn gweithio mewn partneriaeth ac yn cydweithredu â'i gilydd yn rhan allweddol o'r Ddeddf hon.
- Caiff camau ataliol eu hyrwyddo yn y Ddeddf hon drwy roi help pan fydd ei angen er mwyn sicrhau na fydd mwy o angen.

**Mae'r Ddeddf yn seiliedig ar yr egwyddorion craidd canlynol:**

- Llais a rheolaeth – sicrhau bod anghenion yr unigolyn wrth wraidd ei ofal, a rhoi llais a rheolaeth iddo dros y canlyniadau a fydd yn ei helpu i sicrhau llesiant.
- Atal ac ymyrryd yn gynnar – cael gafael ar gyngor a chymorth ar gam cynnar. Mae hyn yn helpu pobl i gynnal ansawdd bywyd da ac yn lleihau'r angen am ofal hirdymor neu'n sicrhau na fydd angen y gofal hwnnw mor fuan.
- Llesiant – helpu pobl i sicrhau llesiant ym mhob agwedd ar eu bywydau.
- Cydgynhyrchu – cynnwys pobl mewn penderfyniadau ynghylch y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt a chydnabod eu harbenigedd.
- Amlasiantaeth – mae gwaith partneriaeth cryf rhwng pob asiantaeth yn hanfodol er mwyn gwella llesiant pobl a gofalwyr sydd angen cymorth.

Mae hawl pobl i lesiant wrth wraidd y Ddeddf. Er bod pobl yn gyfrifol am eu llesiant eu hunain, mae'r llywodraeth yn cydnabod y bydd angen help ar rai i gyflawni hyn. Mae'r Ddeddf yn newid y ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd, grwpiau gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn cydweithio er mwyn helpu a chefnogi pobl. Mae'n pwysleisio bod gan bawb yr hawl i fwynhau llesiant ym mhob rhan o'u bywydau. Mae nifer o ddehongliadau gwahanol o lesiant. Mae Geiriadur Saesneg Rhydychen yn diffinio llesiant fel "**y cyflwr o fod yn gyfforddus, yn iach neu'n hapus**." Wrth helpu pobl gyda'u llesiant, mae'n bwysig deall yr hyn mae hynny'n ei olygu iddynt, gan fod gan bawb anghenion a nodau gwahanol yn eu bywydau.

**Termau Allweddol yn y Ddeddf – Beth yw Llesiant yn ôl y Ddeddf hon?**

**(2) Ystyr "llesiant", o ran person, yw llesiant mewn perthynas ag unrhyw un neu rai o'r canlynol—**
(a) iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol;
(b) amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod;
(c) addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden;
(d) perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol;
(e) cyfraniad a wneir at y gymdeithas;
(f) sicrhau hawliau a hawlogaethau;
(g) llesiant cymdeithasol ac economaidd;
(h) addasrwydd llety preswyl.

**(3) O ran plentyn, mae "llesiant" hefyd yn cynnwys—**
(a) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol;
(b) "lles" fel y diffinnir y term Saesneg cyfatebol "welfare" at ddibenion Deddf Plant 1989.

**(4) O ran oedolyn, mae "llesiant" hefyd yn cynnwys—**
(a) rheolaeth ar fywyd pob dydd;
(b) cymryd rhan mewn gwaith.

**Termau a Diffiniadau Allweddol:**

**Cyfraith** – Cyfraith yw'r rheolau sy'n llywodraethu cymdeithas. Mae'r rheolau hyn yn orfodadwy sy'n golygu y gall pobl wynebu canlyniadau negyddol fel cosbau ariannol neu ddedfrydau o garchar os byddant yn torri'r gyfraith.

**Deddfwriaeth** – Cyfraith ysgrifenedig gwlad neu ran ohoni. Mae Senedd Cymru yn deddfu ym meysydd allweddol fel iechyd. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi deddfwriaeth ar waith drwy ddatblygu strategaethau.

**Strategaeth** – Mae'n rhoi datganiad o safbwynt Llywodraeth Cymru (yr hyn y mae'n ei feddwl), ei bwriadau (yr hyn y bydd yn ei wneud) neu ei gweithredoedd (yr hyn y mae'n ei wneud eisoes) mewn perthynas â deddfwriaeth benodol.

**Hawliau** – Gellir rhoi llais – cyfle – hawl – i bawb, boed yn oedolyn neu'n blentyn, i gael ei glywed fel unigolyn, fel dinesydd, er mwyn llywio'r penderfyniadau sy'n effeithio arno a rheoli ei fywyd o ddydd i ddydd. Dyma un o brif nodau'r Ddeddf.

**Canlyniadau** – Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn diffinio mesur canlyniadau fel newid yn iechyd unigolyn, grŵp o bobl neu'r boblogaeth y gellir ei briodoli i ymyriad neu gyfres o ymyriadau. Nod y Ddeddf hon yw sicrhau'r canlyniadau gorau. Mae'n rhaid i bob partner ym maes cymorth a gofal gydweithio er mwyn sicrhau bod pobl yn ganolog i'w gofal. Un o nodau eraill y Ddeddf yw helpu pobl sy'n darparu gwasanaethau cymdeithasol i gydgynhyrchu atebion gyda'r bobl sydd angen gofal eu hunain. Y canlyniad a ddymunir yw bod pobl yn chwarae rhan ganolog yn eu gofal eu hunain ac y gwrandewir ar eu dymuniadau a bod y dymuniadau hynny yn cael eu cyflawni.

**Eiriolaeth** – Mae eiriolaeth yn ategu pob un o egwyddorion y Ddeddf ac mae'n hanfodol er mwyn cefnogi llais, rheolaeth a llesiant pobl. Mae gwasanaethau eiriolaeth yn helpu pobl sy'n agored i niwed i gael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau. Mae'n caniatáu iddynt gymryd rhan uniongyrchol yn y penderfyniadau a wneir ynghylch eu bywydau eu hunain, gwneud dewisiadau a mynegi eu hanghenion a'u dymuniadau. Mae a wnelo eiriolaeth â rhoi hawliau i bobl a chynrychioli eu buddiannau er mwyn iddynt gael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.